



Cyfarfod

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI

Dyddiad ac Amser

6.00 y.h., DYDD MAWRTH, 15FED MAWRTH, 2022

Lleoliad

Yn Rhithiol Drwy Zoom

(Am fynediad i'r Cyhoedd, cysylltwch a Einir Rh Davies)

Pwynt Cyswllt

Einir Rh Davies

01286 679 868

EinirRhianDavies@gwynedd.llyw.cymru

(DOSBARTHWDYD 8 Mawrth, 2022)

AELODAETH:

Cyngor Gwynedd:

Dylan Bullard
Peter Read
Hefin Underwood

Aelod Lleol
Aelod Lleol
Aelod Lleol

Aelodau Cyfetholedig:

Jenny Moss
Ifor Hughes

Stephen Tudor
Michael Sol Owen
Wil Partington

Andrew Picken
Alwyn Roberts
Cyng. Mike Parry

Cymdeithas Perchnogion Cyhod Pwllheli a'r
Cylch
Cynrychioli Clwb Hwyllo Pwllheli
Cynrychioli Plas Heli
Cynrychioli Cymdeithas Masnachwyr
Morwrol Pwllheli
Cynrychioli Siambr Fasnach Pwllheli
Cynrychioli Sefydliad y Bad Achub Pwllheli
Cyngor Tref Pwllheli

Sylwedyddion:

David Williams
Cynghorydd Rob Triggs
Dr John Jones-Morris
Gareth Thomas

Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog
Aelod Cabinet Economi a Chymuned

RHAGLEN

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol

3. MATERION BRYD

I ystyried unrhyw eitemau sydd yn fater brys ym marn y Cadeirydd.

4. COFNODION

4 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Hydref, 2021 fel rhai cywir.

5. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL A 10 - 13 GWEITHREDOL YR HARBWR

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Morwrol a Rheolwr Harbwr Pwllheli

6. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli ar 18 Hydref, 2022.

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLHELI 12/10/21

PRESENOLDEB:

Cyngor Gwynedd: Y Cyngorwyr Hefin Underwood a Gareth Thomas

Aelodau Cyfetholedig: Stephen Tudor (Cynrychioli Clwb Hwyllo Pwllheli), Michael Sol Owen (Cynrychioli Plas Heli), Wil Partington (Cynrychioli Cymdeithas Masnachwyr Morwrol Pwllheli), Alwyn Roberts (Cynrychioli Sefydliad y Bad Achub Pwllheli) a Jenny Moss (Cymdeithas Deiliaid Angorfeydd Marina Pwllheli)

Eraill yn bresennol: Barry Davies (Rheolwr Gwasanaeth Morwrol), William S Williams (Rheolwr Hafan), Llŷr B Jones (Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned), Einir Rh Davies (Gwasanaethau Democratiaeth) ac Alaw Hughes (Cyfieithydd).

1. ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD Ethol y Cynghorydd Hefin Underwood yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2021/22.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD Ethol y Cynghorydd Peter Read yn Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2021/22 yn ei absenoldeb.

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Y Cynghorydd Peter Read

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

5. MATER BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys oedd angen trafodaeth yn y cyfarfod, ond nodwyd dymuniad rhai aelodau o'r Pwyllgor i gael sgwrs gyda'r Rheolwr Gwasanaeth Morwrol i drafod materion yn ymwneud a Harbwr Pwllheli yn ei gyfanrwydd

6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 Mawrth, 2021 fel rhai cywir.

7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLI YR HARBWR

Atgoffwyd Aelodau'r Pwyllgor mai pwrpas y Pwyllgor oedd rhoi cyfle i godi pryderon a'i bod yn bwysig cael cyfraniadau yr holl randdeiliaid. Yn sgil hyn, nodwyd y pryder bod nifer o aelodau y Pwyllgor yn absennol.

Cyrff Allanol

Atgoffwyd Aelodau y Pwyllgor hefyd bod angen iddynt gyflwyno cofnodion eu cyfarfodydd, ynghyd a chopi o'u cyfansoddiad, er mwyn cwrdd â'r rheolau, a sicrhau bod y rhestr cynrychiolwyr yn gywir a chyfredol.

Cod Diogelwch Harbwr

Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol at y papur roedd wedi ei gylchreded ynglŷn â Chod Diogelwch Harbwr, gan nodi fod y papur y rhoi sicrwydd bod rhanddeiliaid yn cydymffurfio a'r Cod, a chyfeiriodd at y cyfle sydd wedi codi i Aelodau y Pwyllgor fwydo i mewn i'r ymateb. Cadarnhaodd bod dau archwiliad wedi ei wneud gan Asiantaeth Gwylwyr y Glannau a bod yr asesiadau risg yn eu lle ac mewn trefn.

Adolygiad Strategol o Hafan a Harbwr

Cadarnhawyd bod Grŵp Gwaith wedi ei sefydlu er mwyn gallu trafod yr Hafan a Harbwr gyda busnesau lleol a chytuno ar y ffordd ymlaen, gan fod Pwllheli yn uned hollol bwysig. Cadarnhawyd mai y nod yw cael Prif Gynllun ar gyfer y dyfodol, i gynnwys strwythur yr Hafan a Harbwr Pwllheli.

Adolygiad o waith 2019

Rhoddodd y Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned ddiweddariad gan nodi fod y Rhaglen wedi bod ar oediad a materion eraill wedi cymryd blaenoriaeth, ond bod angen ail-afael yn y rhaglen nawr. Cadarnhaodd bod mesurau tymor byr wedi eu hadnabod i gynnwys

- Strwythur Mewnol Hafan a Harbwr, yn sgil ymddeoliad Rheolwr Cynorthwyol yr Hafan
- Materion eiddo, cyfreithiol, ariannol sydd o dan reolaeth yr Hafan ac yr Harbwr
- Comisiynu Prif Gynllun i adnabod y weledigaeth
- Strategaeth Carthu ac Ymdrin â'r gwaddod
- Paratoi Strategaeth Buddsoddi yr Hafan a Harbwr ar gyfer y tymor byr, hir a chanolog

Cadarnhawyd y bydd diweddariad ar gael yn y cyfarfod nesaf.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag amseriad newid mewn rheolaeth, cadarnhawyd ei bod yn hynod bwysig bod y gwasanaeth yn parhau ac nad oes unrhyw newid i'r gwasanaeth, ac mai newidiadau gweinyddol y byddent er mwyn gwella y gwasanaeth. Nodwyd nad oedd swydd Rheolwr Cynorthwyol yr Hafan wedi ei llenwi. Y weledigaeth yw y byddai rhywun wedi ei benodi i'r swydd Rheolwr Masnachol a Busnes Harbwr Pwllheli a bod y swyddog newydd yn y swydd erbyn Mawrth 2022. Cadarnhawyd bod yr amser wedi dod i gymryd golwg strategol ar Hafan a Harbwr a symud ymlaen i gynnig gwell gwasanaeth.

Holiwyd a oedd cynlluniau ar gyfer yr Hen Glwb Hwyllo a chadarnhawyd bod yr adeilad o dan Reolaeth Plas Heli a'r gobaiith fyddai cydweithio gyda Phlas Heli gydag unrhyw gynllun. Ategwyd yr angen i drafod cyn gynted â phosib, a chadarnhawyd fod y Clwb Hwyllo wedi gosod 'Portacabin' ar y safle ar gyfer defnydd Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr a defnydd i blant ar gyfer gwersi 1 i 1, ai fod wedi bod yn adnodd defnyddiol yn sgil cau Canolfan Frondeg. Cadarnhawyd y dymuniad hir dymor i'w weld yn cael defnydd fyddai a chyswllt morwrol.

Ymgyrch Carthu

Cadarnhawyd bod yr ymgyrch carthu wedi oedi oherwydd y sefyllfa Covid. Cadarnhawyd ei bod yn parhau i fod yn fwrriad i garthu ceg yr harbwr tua mis Ebrill 2022. Mae pryder yn parhau ynglŷn â lleihad y defnydd allai gael ei garthu allan o geg yr Harbwr mewn cyfnod byr oherwydd y llanw.

Cadarnhawyd y bydd cwmni Royal Small yn carthu Doc Fictoria tan ddiwedd Hydref/dechrau Tachwedd ac yna ym Mhwillheli yr ail wythnos o Dachwedd. Bydd gwaith

yn cael ei wneud ar garthu y sianel, asesu llaid yn y pontŵn a capasiti a'r bwnd distyllu. Cadarnhawyd eu bod wedi treialu defnyddio carthwr yn agosach i geg yr harbwr, ond bod cwprwl o broblemau wedi codi, megis cerrig mawr wedi dod i mewn. Fe fydd treialon yn cael ei gwneud ar garthu rhan o'r sianel drwy arllwys y tywod yn ardal y domen dywod ger Craig yr Imbill.

Cafwyd trafodaeth ar ddulliau eraill o garthu, megis ei roi mewn bagiau i'w sychu a'i ddanfôn o'r safle mewn lori, ond cadarnhawyd ei bod yn anodd gwaredu y llaid ac y bydd hyn yn broblem hir dymor. Cadarnhawyd y bydd y cytundeb gyda Jones Brothers ar gyfer gwaith ar geg yr Harbwr yn parhau flwyddyn nesaf. Nodwyd y bydd y gwaith carthu gan ddefnyddio sugnydd wedi ei gwblhau erbyn canol Rhagfyr pe na fyddai yna gyfyngiadau Covid pellach, ac yn sgil hyn y bydd arolwg hydrograffeg y cael ei gynnal i fesur llwyddiant ac y bydd yr ymgrych nesaf o gwmpas y pontŵn yn cael ei wneud tua Gwanwyn 2023.

Mewn ymateb i'r uchod, tynnwyd sylw at y banc o dywod sydd yn erbyn Iard Gychod Llyn Marine lle nad oes llawer o ddŵr, a holiwyd a yw yn cael sylw? Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth Morwrol bod yr Uned Forwrol wedi adnabod ardaloedd i'w targedu ble mae y sianel yn dod yn ôl yn ddyfnach.

Cwestiynwyd a oedd gwahaniaeth i'w weld gyda Morglawdd Y Crud. Mewn ymateb adroddwyd bod yna debygrwydd bod yna bar tywod yn cael ei greu yn dilyn y gwaith. Cadarnhawyd bod y morglawdd newydd llawer cryfach na'r morglawdd blaenorol, ac awgrymwyd efallai y byddai modd gwneud arolwg topograffig i fesur maint y tywod sydd yn disgyn i'r dwyrain o'r morglawdd. Cadarnhawyd hefyd yn dilyn arolwg lluniau o'r awyr fod yna newid yng ngheg yr harbwr.

Yn sgil y cadarnhad o'r gwaith bydd Jones Brothers yn ei wneud ar geg yr afon, gan y bydd rhan o'r cynllun ym mynd mor bell â phosib, nodwyd bod eisiau creu bwced i adael y tywod ddisgyn iddo fel na fydd yn cael ei gario i fewn i'r harbwr. Awgrymwyd y byddai yr asesiadau priodol yn dangos beth sydd yn bosib.

Diolchwyd am gael golwg ar yr arolygon hydrograffeg. Cadarnhawyd y bydd angen symud y cychod pe byddai modd carthu oddi amgylch y pontwn ac nad yw hyn yn broblem, er ei bod yn bosib carthu yr ardal rhwng y prif pontwn heb symud cychod os bydd angen.

Materion Ariannol

Yn anffodus, nid oedd y wybodaeth ariannol wedi ei rannu ymlaen llaw, ond rhagwelwyd y bydd £259,121 yn cael ei ddanfôn i'r gronfa. Adroddwyd bod y Gwasanaeth yn rhagweld gwariant yn yr harbwr yn £18,666 llai wariant. Cadarnhawyd er bod y sefyllfa yn edrych yn iach, bod hanner y flwyddyn dal i ddod.

Ffioedd a Thaliadau

Cyfeiriwyd at y sefyllfa o ran codiadau mewn pris nwy a thrydan, a'r angen i gadw llygaid ar y sefyllfa. Nodwyd yr angen i fod yn ofalus a chadw mewn cof yr angen am arian tuag at gostau ychwanegol posib.

O ran ffioedd a thaliadau ar gyfer y flwyddyn nesaf, cadarnhawyd bod angen trafod ymhellach sut i symud y mater yn ei flaen. Cadarnhawyd bod unrhyw gynnydd mewn cost yn effeithio ar gadw cwsmeriaid a denu cwsmeriaid newydd. Nodwyd y gobaith o gadw unrhyw gynnydd mewn ffioedd cyn ised â phosib a bydd modd rhoi ystyriaeth well pan fydd y ffigwr chwyddiant ar gael.

Yn dilyn yr uchod, nodwyd ymhellach

- Bod y ffigyrau angorfeydd yn llawer gwell na'r disgwyl, ond bod rhaid gwneud ymdrech nerthol i gadw cymaint o'r incwm hwn a phosib yn Harbwr a Hafan

- Mae newid mewn rheolaeth ar y gweill flwyddyn nesaf o ran TAW ar ddod a chychod yn ôl i'r Wlad hon, cyfeiriwyd ato fel difidend Brexit, a holiwyd am wybodaeth bellach.
- Gyda phrisiau tanwydd yn cynyddu efallai byddai modd cynnwys paneli solar yn yr Hafan fel gôl tymor hir yn y Prif Gynllun

Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Morwrol bydd materion TAW yn cael effaith, megis costau uwch a chadarnhaodd yr angen i drafod ymhellach gydag arbenigwyr TAW y Cyngor Croesawyd y cysyniad o fonws teyrngarwch.

Adroddiad Rheolwr Hafan Trinity House

Cadarnhawyd bod ymchwiliad wedi ei wneud gan Trinity House a bod popeth yn dderbyniol, ac nad oedd Rhybudd i Forwyr yn gyfredol ar hyn o bryd.

Cei Tanwydd

Cadarnhawyd bod gwerthiant petrol ar gynnydd sylweddol, gyda y drefn hunanwasanaeth cei tanwydd wedi bod yn wych. Cadarnhawyd bod gwaith yn mynd rhagddo i edrych ar y sefyllfa disel yn sgil y newidiadau, ond nad oedd mwy o wybodaeth wedi dod i law gan CaT EM, ond rhaid cadw mewn cof efallai y bydd yn dod i ben Ebrill 2022.

O ran y sefyllfa petrol, cadarnhawyd bod mwy o stoc, gyda E10 ynddo, a chadarnhawyd bod rhybudd wedi ei gyflwyno i berchenogion cychod o'r angen i fod yn ofalus. Cadarnhawyd hefyd bod un o'r pypiau yn ddeg oed a bod cynlluniau ar y gweill i'w newid yn fuan iawn yn 2022.

Cofrestru Cychod

Mae y drefn o gofrestru cychod ar lein yn gweithio yn dda ac yn arbed llawer o waith papur.

Llithrfa

Cadarnhawyd bod cynnydd wedi bod o'r flwyddyn 2019, oedd yn 299 o breswylwyr blynyddol i 378 yn 2020. Yn ychwanegol, bu nifer y cychod ymwelwyr yn dda iawn hefyd. Mynegwyd pryder a siom enfawr fod cwmnïau Parcio a Lansio ddim yn cydymffurfio a rheoliadau'r harbwr a rheoliadau'r Cyngor mewn perthynas â chofrestru cychod a Badau Dwr Personol. Yn ystod y tymor roedd nifer fawr o gychod a Badau Dwr Personol yn cael ei lansio heb fod y llestr wedi cofrestru gyda'r Cyngor. Roedd agwedd y rhai a oedd yn lansio'r cychod yn negyddol tuag at staff ac nid oedd hyn yn dderbyniol. Ar gyfer 2022 fe fydd y Cyngor yn codi'r ffi ac yn cryfhau diogelwch ar y safle drwy osod rhwystr ar y fynedfa a drwy benodi swyddog gyda chyfrifoldeb am sicrhau bod pob cwch a ddefnyddir harbwr Pwllheli wedi cofrestru gyda'r Cyngor.

Storio Cychod

Cyfeiriwyd at y prinder lle ar y lan ar gyfer storio cychod, ond bod y cynnig cyntaf yn cael ei roi i'r deiliaid angorfa blynyddol yr Hafan a Harbwr Allanol i storio cychod ar y lan, a nodwyd bod hwn yn gweithio yn dda ac yn cael ei werthfawrogi.

Staffio

Yn dilyn colli aelod o staff yn ystod yr haf, hysbyswyd y swydd dymhorol ond ni fu i'r hysbyseb dderbyn nifer o ymgeiswyr. Tra bod un o'r cymhorthion tymhorol eisoes wedi gadael canol yr haf, mae dau wedi parhau i weithio yn yr Hafan drwy gydol y tymor a rhagwelir y byddent yn cael eu cadw ymlaen dros y gaeaf.

Yn dilyn y diweddariad ymatebwyd fel a ganlyn :

- Roedd y rhanddeiliaid yn falch o weld y diffibiwlwr yn ei le
- Mae Plas Heli wedi gweld twf yn y niferoedd sydd yn gwneud ymholiadau, a nodwyd bod y sistem gyfrifiadurol i gymryd archebion mewn lle, a bo cydweithio da gyda yr Hafan.
- Mae pryder am y llithrfa a llawer yn anwybyddu y rheoliadau a'r rheolaeth

Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaethau Morwrol at yr adroddiad gan ddiolch i staff yr Hafan. Cadarnhawyd bod y sustem ddiogelwch wedi ei newid, tra bod trafodaeth ar y gweill gyda Phlas Heli i drafod materion parcio ac o bosib gosod rhwystrau electroneg.

Adroddiad Ffioedd a Thaliadau Parcio a Lansio

Adroddwyd ar faterion ffioedd a thaliadau, a dwy flynedd yn ôl, sylweddolwyd bod y ffi ddim yn gyfraniad teg o gwbl. Yn dilyn cefnogaeth y Pwyllgor i'r adroddiad ar ffioedd, nodwyd bod trafodaethau wedi eu cynnal gydag Aelodau Cyngor Gwynedd, ynglŷn â thalu llai ar y sicrwydd bod pob cwmni cwch yn sicrhau bod pawb yn cofrestru cychod.

Adroddwyd nad oedd unrhyw gydweithrediad o gwbl wedi digwydd, gyda y drefn gofrestru yn cael ei hanwybyddu, a sgil-ffaith hyn oedd ei bod yn amhosib adrodd ar berchnogaeth cychod. Nodwyd yr angen felly nawr i ail-edrych ar y trefniadau, ac mai un o'r opsiynau fyddai cynyddu y ffi yn sylweddol neu osod rhwystr ar ben yr Hafan. Tynnwyd sylw y Pwyllgor at yr hyn oedd fod i ddigwydd o'i gymharu â'r hyn a fu ddigwydd. Atgyfnerthwyd y sylw gan nodi fod agwedd hyll tuag at staff gan rai at barcio a lansio a'r siomedigaeth o amgylch hyn, yn enwedig gan fo cytundeb wedi ei wneud a chadarnhawyd bod yn rhaid cymryd y camau priodol. Nodwyd y teimlad mai yr un cwsmeriaid sydd yn creu problemau parcio, gan barcio ar balmentydd ac ardaloedd gwyrdd. Gresynwyd nad oedd presenoldeb yn y cyfarfod o Barcio a Lansio. Nodwyd mai yn Llithrfa Hafan Pwllheli mae y problem ac nid yn yr Harbwr Allanol.

O ran y parcio, cadarnhawyd bod modd parcio 300 o gychod rhwng 5 cwmni a bod gan bob cwmni eu compound ond bod dim lle yn y compound oherwydd y gofyn. Nodwyd y dylai fod gan y cwmnïau le parcio cerbydau ei hunain a nodwyd bod yn rhaid i neges i'r perwyl hwn gael ei rhannu ac yna adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn.

O ran y ffi, cadarnhawyd ei fod yn sylweddol isel wrth gymharu ag eraill gydag unigolyn preifat yn talu £150 y tymor. Nodwyd yr angen i sicrhau bod cychod wedi eu cofrestru gan ei bod yn sefyllfa annheg ar staff.

Cadarnhawyd bod Plas Heli yn awyddus i gydweithio gyda y Cyngor, ond bod unrhyw ateb i'r sefyllfa parcio angen dod gan yr holl randdeiliaid. Efallai bydd modd dod i gytundeb gyda Phlas Heli gan y byddai unrhyw incwm i Blas Heli yn dderbyniol. Nododd y Rheolwr Gwasanaethau Morwrol bod cwmnïau yn ymwybodol o'r teimladau a bod pryder wedi ei ddatgan.

Ymgynghoriaeth ar y Defnydd o Fadau Dwr

Cyfeiriwyd at yr ymgynghoriaeth oedd eisoes wedi ei rannu a nodwyd y byddai y Rheolwr Gwasanaethau Morwrol yn gwerthfawrogi sylwadau neu farn neu argymhelliad aelodau y Pwyllgor erbyn y dyddiad cau 1/11. Cadarnhawyd mai Opsiwn 3 oedd argymhelliad y llywodraeth.

Teimlad y Pwyllgor oedd bod is-ddeddfau digonol ar gael ai fod o bosib ddim yn gwneud fawr o wahaniaeth, er bod y cysyniad o gryfhau y rheoliadau yn cael ei gefnogi.

Cadarnhawyd bod rhai rhanddeiliaid wedi gofyn am farn eraill, a rhai am wneud sylwadau unigol. Diolchwyd am gefnogaeth y Pwyllgor ac atgoffwyd pawb i gysylltu os oes mater yn codi rhwng cyfarfodydd.

PENDERFYNWYD :

(1) Nodi a derbyn yr adroddiad.

(2) Ymateb fel a ganlyn i bapur ymgynghori'r Adran Drafnidiaeth "Strengthening enforcement of the dangerous use of recreational and personal watercraft" :

- i. Bod y pwyllgor hwn yn cefnogi opsiwn 3, sef llunio deddfwriaeth dan Adran 112 o Ddeddf Diogelwch Rheilffyrdd a Thrafnidiaeth 2003 i ymestyn darpariaethau perthnasol

Deddf Llongau Masnach 1995, a rheoliadau perthnasol, i gynnwys Badau Dŵr Hamdden a Badau Dwr Personol.

- ii. Pwysleisio pwysigrwydd sicrhau hyfforddiant i ddefnyddwyr a galw am godi'r terfyn oedran ar gyfer gyrru Badau Dŵr Hamdden a Badau Dwr Personol

(3) Hysbysu defnyddwyr Llithrfa yr Hafan am yr angen i sicrhau bod pob Cwch Hamdden a Bad Dwr Personol wedi cofrestru gyda Chyngor Gwynedd cyn lansio. Roedd hyn yn sgil pryderon a godwyd am y defnydd presennol.

Unrhyw Fater Arall

- Hysbyswyd y Pwyllgor am ddigwyddiad mawr gan RWE Cymru a'r cyfle ddaw i ddangos beth sydd gan Ogledd Cymru i'w gynnig a'r dymuniad i'w wneud yn brofiad gwerth chweil.
- Adroddwyd bod cwt newydd y Bad Achub yn siapio a bod y Cwch ar waith. Nodwyd hefyd bod chwe aelod arall wedi ei recriwtio i'r tîm.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniadau gwerthfawr.

8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nodwyd y bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 15 Mawrth 2022 am 6.00 pm

Dechreuodd y cyfarfod am 6.00 pm a daeth i ben am 7.50 pm.

CADEIRYDD

Eitem 5

CYFARFOD	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli
DYDDIAD	15 Mawrth 2022
TEITL	Diweddariad ar Faterion Rheoli a Gweithredol yr Harbwr
AWDUR(ON)	Swyddog Morwrol a Rheolwr Harbwr Pwllheli

Cyflwyniad.

Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Pwllheli.

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad byr i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr am y flwyddyn a ddaw i ben ar ddiwedd mis Mawrth 2022, er mwyn cael adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

Mae Pwyllgor Harbwr Pwllheli yn Bwyllgor Harbwr anstatudol, a sefydlwyd yn unol â chymeradwyaeth a chefnogaeth y Cyngor. Mae'r caniatâd yn darparu bod pymtheg (15) aelod yn gwasanaethu ar Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli. Ceir rhestr gynhwysfawr o'r grwpiau a'r sefydliadau sy'n cael eu cynrychioli ar y pwyllgor Harbwr yn y rhaglen.

Yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor bydd hi'n ofynnol i'r cynrychiolwyr o bob grŵp a sefydliad ddarparu tystiolaeth o'u Cyfansoddiad i'r Cyngor ynghyd â llythyr o'u sefydliad yn cadarnhau enw eu cynrychiolydd. Nid yw'r uchod yn berthnasol i Gyngor Tref neu Gymuned.

1.1 Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd.

Mae'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd morol porthladdoedd. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn cynrychioli arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol. Mae'n angenrheidiol i'r Gwasanaeth dderbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, er mwyn iddo gael ei adolygu a'i fod yn berthnasol i weithgarwch yr harbwr, cymhorthion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Pwllheli.

Yn dilyn archwiliad trylwyr o God Diogelwch Morol Porthladdoedd Gwynedd a'r system rheoli diogelwch cysylltiedig gan archwilwyr yr Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau y llynedd, mae'r Gwasanaeth yn bwriadu anfon llythyr cydymffurfio â'r cod at yr Asiantaeth Forwrol a Gwylwyr y Glannau. Caiff hyn ei gwblhau ar ôl cynnal yr archwiliad allanol blynyddol o'r system rheoli diogelwch.

1.5 Carthu'r Sianel

Cafodd ymgyrch carthu sianel ddynesu'r harbwr a oedwyd ei gwblhau yn Rhagfyr 2021.

Mae copi electroneg manwl o'r siart hydrograffeg ar ôl y gwaith carthu ar gael i bob aelod ar gais.

Mae'r Lagŵn Ddistyllu yn llawn ac felly mae dulliau gwahanol o waredu silt yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

Ni ellir cwblhau rhagor o waith carthu gan ddefnyddio'r Lagŵn Ddistyllu nes i ateb hyfyw gael ei adnabod.

Gellir ymgymryd â'r ymgyrch garthu nesaf ym masn y marina tua diwedd 2022 os yw'r dyfnder yn y basn yn dangos bod angen carthu.

Bydd y fynedfa i'r harbwr yn cael ei charthu yn ystod mis Mai 2022. Mae tua 11,000 tonn o dywod wedi'i dynnu o'r pentwr ar gyfer ailgyflenwi'r traeth yn Hafan y Môr. Mae'r gwaith wedi creu capasiti ychwanegol yn ardal y pentwr er mwyn paratoi ar gyfer ymgyrch Mai 2022.

1.6 Materion Ariannol.

Cyflwynir crynodeb bras o gyllideb yr Harbwr Allanol a Marina'r Hafan, a'r sefyllfa ariannol bresennol i'r aelodau yn y cyfarfod.

Yn ystod cyfnod yr Hydref a'r Gaeaf, roedd yn rhaid ymrwymo adnoddau ariannol i'r meysydd a ganlyn o waith: -

- Injan a gêr bocs newydd ar gyfer cwch yr Harbwr
- Giât mynediad newydd i'r pontŵn
- System Diogelwch newydd ar gyfer y bloc Cawodydd a'r Toiledau
- Cynnal a chadw'r cyfleusterau - toiledau a chawodydd
- Lloches newydd i Feiciau
- Tanc disel gwyn
- Uwchraddio system WI-FI a chysylltiad y marina
- Carthu'r Harbwr

1.7 Ffioedd a Thaliadau 2022/23

Atodir copi o'r ffioedd a'r taliadau sy'n ymwneud â'r Hafan Pwllheli a'r Harbwr Allanol.

Nid oedd y ffioedd wedi eu cadarnhau gan y swyddogion statudol ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, ac felly gall y ffioedd a nodwyd yn yr atodiad newid.

Bydd y ffioedd a'r taliadau sy'n ymwneud ag angorfeydd cychod yn yr Harbwr Allanol yn codi yn unol â chwyddiant sydd wedi'i gadarnhau yn 4%.

Argymhellir i beidio codi'r ffioedd a'r taliadau sy'n ymwneud ag angorfeydd cychod ar angorfa pontŵn ym marina Hafan yn 2022/23. Argymhellwyd bod yr holl ffioedd eraill yn cael eu codi yn ôl y gyfradd chwyddiant ac eithrio'r ffi ar gyfer storio cwch ar y lan i'r cwsmeriaid hynny nad oes ganddynt angorfa flynyddol yn y marina.

Bydd y ffi ar gyfer defnyddio llithrfa Hafan hefyd yn codi yn uwch na chwyddiant.

Mae copi o'r raddfa chwyddiant sy'n berthnasol i'r Uned Forwrol hefyd wedi'i atodi. Rydym yn annog aelodau i ymgyswrtio â'r ddogfen gan wneud yn siŵr eu bod yn gyfarwydd â'r cynigion i gynyddu a argymhellir.

1.9 Eitemau Gweithredol

Mordwyo - Mae'r holl Gymhorthion Mordwyo yn Harbwr Pwllheli yn gweithio ac yn eu lle. Nid oes unrhyw "Rybuddion i Forwyr" yn weithredol yn Harbwr Pwllheli ar hyn o bryd.

Cei Tanwydd - Mae pwmp tanwydd petrol newydd ar gyfer y cei wedi'i archebu ac rydym yn tybio y bydd yn cyrraedd ym mis Mai/Mehefin 2022. Bydd y Bont Mynediad at y Cei Tanwydd angen ei newid yn y flwyddyn ariannol newydd (yn dechrau Ebrill 1). Mae ramp presennol y Cei Tanwydd wedi cyrydu'n ddrwg a byddwn yn archebu un newydd yn ei le mor fuan â phosib wedi'i dyddiad yma.

Tanwydd Diesel - Rydym wedi cael gwybod gan HMRC y bydd yn angenrheidiol o Ebrill 2022 i beiriannau ar y tir ddefnyddio disel gwyn yn unig. Mae disel gwyn yn cael ei ddefnyddio yn nhractor y gwasanaeth ar hyn o bryd. Bydd yna ofyniad i gaffael, gosod a storio disel gwyn ar safle'r marina er mwyn cydymffurfio â gofynion HMRC.

Nid yw'r gofyniad newydd yn berthnasol i gychod. Gall cychod barhau i brynu disel coch ar gei tanwydd Hafan gan ddefnyddio'r rhaniad arferol 60/40 a argymhellir gan HMRC.

Llithrfa Hafan a Chofrestru Cychod Pŵer - Mae Awdurdod yr Harbwr yn dymuno atgoffa holl gwmnïau Parcio a Lansio bod yn rhaid iddynt sicrhau bod yr holl gychod sy'n cael eu lansio ar y llithrfa fod wedi cofrestru ar gyfer y flwyddyn gyfredol 2022/23. Mae'r broses yma'n cael ei chwblhau yn gyflym ac yn hawdd ar lein ac mae'r trwyddedau cofrestru wedyn yn cael eu casglu o'r swyddfa Hafan.

Carem atgoffa'r Pwyllgor o'r datganiad a wnaed yng nghyfarfod yr hydref 2021, oedd fel a ganlyn: -

Roedd yn fater o bryder a siom ein bod ni wedi adrodd i'r Pwyllgor nad oedd y cwmnïau Parcio a Lansio oedd wedi eu hawdurdodi ac yn defnyddio llithrfa Hafan yn sicrhau bod y cychod oedd yn cael eu lansio gan y cwmnïau Parcio a Lansio wedi eu cofrestru yn unol â gofynion y Cyngor a'r harbwr.

Ar sawl achlysur, roedd cwmnïau Parcio a Lansio wedi eu herio gan swyddogion morwrol ac wedi eu cael eu hatgoffa o'r gofyniad yma. Yn ystod penwythnos Gŵyl y Banc ym mis Awst 2021, roedd y diffyg yma o sicrhau bod y cychod wedi eu cofrestru yn fwy o bryder.

Roedd nifer y cychod a lanswyd yn 2021 wedi cynyddu'n sylweddol. Roedd cychod yn cael eu lansio yn rheolaidd heb arddangos trwydded cofrestru gyfredol a dilys.

Er yr ymdrechion a wnaed i herio, hysbyswyd staff morwrol nad cyfrifoldeb y cwmni Parcio a Lansio oedd sicrhau cydymffurfiad. Mae hyn yn hollol anghywir.

O gofio am y diffyg cydymffurfio llwyr, bydd mesurau mwy llym yn cael eu cyflwyno ar gyfer 2022. Bydd hyn yn cynnwys diogelwch ychwanegol ar ffurf rhwystr diogelwch ar glo; cynnydd mewn taliadau a phenodi staff ychwanegol i sicrhau cydymffurfiad bob amser.

Fel y cofia'r Aelodau, cafodd y ffi flynyddol ar gyfer defnydd masnachol o lithrfa Hafan ei ostwng yn sylweddol yn 2019 gyda sicrwydd na fuasai unrhyw gwch yn cael ei lansio os nad oedd wedi cofrestru. Yn amlwg, nid dyma yw'r sefyllfa.

Rydym yn annog pob cwmni sy'n defnyddio llithrfa Hafan a'r Harbwr i sicrhau nad ydynt yn ceisio lansio unrhyw gwch sydd ddim yn arddangos trwydded cofrestru ddilys yn glir ac yn weledol yn 2022.

Lleiniau Caled a man parcio Deiliaid Angorfeydd Blynyddol - Dros y blynyddoedd rydym wedi gweld cynnydd yn y nifer o gychod oedd yn cael eu storio ar y lan yn lloc Hafan yn hirdymor. Ar hyn o bryd mae gennym oddeutu 25 o gychod wedi eu storio sydd heb symud am nifer o flynyddoedd ac yn cymryd lle y gellid ei ddefnyddio gan ddeiliaid angorfeydd blynyddol.

Cydnabuwyd ers tro bod angen ymdrin â'r sefyllfa yma i ryddhau gwagle sydd wir ei angen ar gyfer gofynion deiliaid angorfeydd blynyddol yn y gaeaf ac yn yr haf gellir defnyddio'r tir fel maes parcio ceir i angorfeydd ychwanegol.

Cynigir felly bod y ffi ar gyfer storio cwch i'r cwsmeriaid hynny nad oes ganddynt angorfa flynyddol yn codi i £1.00 y fetr fesul diwrnod yn cynnwys TAW.

Ystadegau Harbwr/Hafan Blynyddol ac ati - Mae manylion ystadegau'r Hafan a'r Harbwr ar gyfer 2021 wedi'u cynnwys gyda'r adroddiad hwn. Mae'r nifer preswyl blynyddol wedi cynyddu'n fawr eleni, ac mae'r Hafan bron yn llawn. Mae 92% o'r angorfeydd wedi'u cymryd gan breswylwyr blynyddol ac mae ymholiadau am angorfeydd ar gyfer 2022/3 yn hynod o gadarn.

Hoist cychod/storio cychod ar y lan - Mae'r defnydd a wneir o hoist cychod yr Hafan yn gyson, ond fel a adroddwyd yng nghyfarfod diwethaf yr Harbwr mae llefydd yn brin iawn i storio cychod ar y lan. Y gaeaf yma mae'r 'Berth Holders' Association' wedi gofyn i ni roi blaenoriaeth i Ddeiliaid Angorfeydd Preswyl, ac rydym wedi cytuno i hynny.

Adolygiad Harbwr - Yn dilyn adolygiad Strategaeth Farchnata'r Harbwr a'r Hafan yn 2019/20, mae'r strwythur staffio presennol yn cael ei newid yn unol â'r ymgynghoriadau blaenorol.

Fel yr adroddwyd i'r Aelodau yng nghyfarfod yr hydref, crëwyd swydd newydd Rheolwr Masnachol ar gyfer Hafan a Harbwr Pwllheli a hysbysebwyd y swydd cyn diwedd 2021.

Rydym yn gallu adrodd i'r aelodau bod penodiad i'r swydd Rheolwr Masnachol ar gyfer Hafan a Harbwr Pwllheli wedi'i gadarnhau. Bydd yr unigolyn a benodwyd yn dechrau yn y swydd ar y 1 Mehefin ac yn dechrau ar y safle yn Hafan Pwllheli ar 6 Mehefin 2022.

I gynorthwyo yn yr harbwr, byddwn yn penodi dau Gynorthwydd Harbwr tymhorol ar gyfer tymor yr haf sydd i ddod. Mae'r swyddi yma wedi cael eu hysbysebu.

Chwyddiant ar Incwm 2022/23 - Cyllideb Rhan 1 - 'Cost Recovery'

Gwariant							
	Gwariant Col 14	Gwariant Col 32	Di-ystyru Amryw Benawdau	Addasiad £250 Col 9a	Addasiad Chwyddiant Col 45a/c/d	Gwahaniaeth mewn £	Gwahaniaeth mewn %
	£	£	£	£	£	£	%
Hafan	666,880	680,780	-1,510	-2,160	12,680	25,930	3.89%
Traethau	375,140	396,680	12,730	-2,420	7,740	14,130	3.77%
Harbwr Pwllheli	46,810	48,070	-120	-340	780	1,820	3.89%
Harbwr Porthmadog	95,030	97,360	-260	-340	1,690	3,940	4.15%
Harbwr Abermaw	74,670	76,530	-260	-340	950	2,730	3.66%
Harbwr Aberdyfi	87,080	89,240	-250	-340	1,310	3,380	3.88%
Cyfanswm Harbyrau	303,590	311,200	-890	-1,360	4,730	11,870	3.91%
Doc Fictoria	123,080	124,860	0	0	1,250	3,030	2.46%

Incwm			
Cynnydd £ yn y Targed Chwyddiant Col 29	Targed Terfynol Col 33	Addasiad Chwyddiant Col 45b/dd	Cyfanswm Col 60
£	£	£	£
-22,810	-1,170,720	-21,810	-1,471,030
-5,510	-328,620	-6,670	-335,290
-590	-25,810	-440	-26,250
-1,530	-67,150	-1,140	-68,290
-670	-29,860	-500	-30,360
-600	-26,360	-460	-26,820
-3,390	-149,180	-2,540	-151,720
-3,170	-222,200	-2,220	-224,420

Chwyddiant ar Incwm 2022/23 - Cyllideb Rhan 1 - 'Cost Recovery'

Gwariant							
	Gwariant Col 14	Gwariant Col 32	Di-ystyru Amryw Benawdau	Addasiad £250 Col 9a	Addasiad Chwyddiant Col 45a/c/d	Gwahaniaeth mewn £	Gwahaniaeth mewn %
	£	£	£	£	£	£	%
Hafan	666,880	680,780	-1,510	-2,160	12,680	25,930	3.89%
Traethau	375,140	396,680	12,730	-2,420	7,740	14,130	3.77%
Harbwr Pwllheli	46,810	48,070	-120	-340	780	1,820	3.89%
Harbwr Porthmadog	95,030	97,360	-260	-340	1,690	3,940	4.15%
Harbwr Abermaw	74,670	76,530	-260	-340	950	2,730	3.66%
Harbwr Aberdyfi	87,080	89,240	-250	-340	1,310	3,380	3.88%
Cyfanswm Harbyrau	303,590	311,200	-890	-1,360	4,730	11,870	3.91%
Doc Fictoria	123,080	124,860	0	0	1,250	3,030	2.46%

Incwm			
Cynnydd £ yn y Targed Chwyddiant Col 29	Targed Terfynol Col 33	Addasiad Chwyddiant Col 45b/dd	Cyfanswm Col 60
£	£	£	£
-22,810	-1,170,720	-21,810	-1,471,030
-5,510	-328,620	-6,670	-335,290
-590	-25,810	-440	-26,250
-1,530	-67,150	-1,140	-68,290
-670	-29,860	-500	-30,360
-600	-26,360	-460	-26,820
-3,390	-149,180	-2,540	-151,720
-3,170	-222,200	-2,220	-224,420

Adenill Incwm Ffioedd 2022/23

(targedau isod ddim yn cynnwys Incwm Rhenti ac Incwm Gwerthu Trydan)

Pennawd	Targed Incwm 2021/22	% Chwyddiant i'w Adenill	£ Chwyddiant i'w Adenill	Targed Incwm 2022/23
Hafan	-£1,426,410	3.89%	-£44,620	-£1,471,030
Traethau	-£323,110	3.77%	-£12,180	-£335,290
